11 Chwefror 2021

AILAGOR YSGOLION YN RADDOL I DDYSGWYR Y CYFNOD SYLFAEN

Mae ysgolion wrthi'n cynllunio ar gyfer ailagor yn raddol y ddarpariaeth ar safle'r ysgol i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 22 Chwefror.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion yn adolygu eu hasesiadau risg yn sgil rhyddhau canllawiau gweithredol diwygiedig Llywodraeth Cymru.

Mae'r canllawiau diwygiedig i ysgolion yn cynnwys manylion newydd am:

- wisgo gorchuddion wyneb ym mhob rhan o'r ysgol neu leoliad gan staff lle nad oes modd cadw pellter cymdeithasol
- asesiadau risg – cydnabod pwysigrwydd adolygu asesiadau risg i fod yn addas i'r amgylchiadau presennol a'r rhestr wirio ategol
- argaeledd profi dwywaith yr wythnos i staff ysgolion a lleoliadau
- y gweithlu – gan gynnwys cyngor i'r rheini sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol
- prydau ysgol am ddim – parhau i ddarparu £19.50 y dysgwr.

Dydd Llun, 22 Chwefror, bydd pob ysgol yn cynnal diwrnod cynllunio ar gyfer dychwelyd i'r ysgol.

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed yn parhau'r diwrnod hwnnw.

O ddydd Mawrth, 23 Chwefror ymlaen, bydd dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn dechrau dychwelyd i'r ysgol yn raddol.

Clystyrau o ysgolion fydd yn penderfynu ar hyn yn lleol i sicrhau bod dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol mewn ffordd sydd mor ddiogel â phosibl iddynt.

Mae manylion pellach ar gyfer pob ysgol ar gael trwy fynd i wefannau ysgolion a'u platfformau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd dysgwyr yn dychwelyd i'r ysgol yn raddol fel bod pob grŵp o ddysgwyr sy'n mynd i mewn i leoliadau ysgol yn cyfarwyddo â'r ystod o fesurau i'w cadw nhw'n ddiogel.

Felly, bydd y niferoedd ar safleoedd ysgol yn is yn ystod yr wythnos gyntaf.

Bydd dysgu o bell i ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn dod i ben yr wythnos hon fel y gall staff ysgolion dreulio amser buddiol wyneb yn wyneb gyda'r rheini sy'n dychwelyd i'r ysgol.

Yn ystod yr wythnos gyntaf y bydd dysgwyr yn dychwelyd, bydd ysgolion yn monitro ac yn gwerthuso'u gweithdrefnau wrth i ddysgwyr ddychwelyd i safleoedd ysgol.

Hefyd, bydd monitro'n digwydd i weld a oes cynnydd yn nhrosglwyddiad y firws o ganlyniad i ddychwelyd i safleoedd ysgol.

Bydd staff ysgolion yn cael profion trwy brofion llif unffordd ddwywaith yr wythnos.

Mae hyn yn golygu y gall fod adegau pan fydd dychwelyd i niferoedd llawn yn cael ei atal neu ei arafu i sicrhau bod yr holl fesurau lliniaru yn gweithio.

Bydd gan rieni a gofalwyr rôl i'w chwarae wrth sicrhau bod y mesurau lliniaru yn y canllaw yn cael eu cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cadw pellter cymdeithasol ar safleoedd ysgol, lle bynnag y bo'n bosibl
- Gwisgo gorchudd wyneb ar bob safle ysgol
- Sicrhau nad yw dysgwyr yn cymysgu'r tu allan i'w swigod dynodedig yn yr ysgol.
- Parhau i ddilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru ar lefel rhybudd pedwar, sy'n golygu aros gartref os nad yw'n hanfodol mynd allan.

Dylai dysgwyr sy'n agored i niwed yn glinigol aros gartref yn unol â'r canllawiau presennol, fydd ar waith tan 31 Mawrth 2021.

Mae ysgolion yn paratoi i holl ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd yn llawn ar 1 Mawrth.

I gael y cyngor diweddaraf a'r datganiadau diweddaraf i'r wasg ar coronafeirws, ewch i: www.sir-benfro.gov.uk/coronafeirws

Ar gyfer ymholiadau'r wasg, e-bostiwch: presspublicrelations@pembrokeshire.gov.uk